# Adolygiad Asesu Risg a Sicrwydd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3179A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a wnaed yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu weithiwr arall yn eu gwaith unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a roddir o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth drin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon gael eu hanfon i Archwilio Cymru i swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Yr hyn a adolygwyd a pham | 4 |
| Sefyllfa ariannol | 4 |
| Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | 6 |
| Cynllun lleihau carbon | 6 |
| Grantiau cyfleusterau i’r anabl | 8 |
| Cydymffurfiaeth adeiladau statudol | 10 |

# Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Gwnaethom gynnal y prosiect hwn i ganfod lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen rhagor o waith archwilio mewn blynyddoedd i ddod ynghylch risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Bu'r prosiect hwn hefyd o gymorth i ni asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

2 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau yn y meysydd lle'r ydym wedi gwneud gwaith Asesu Risg a Sicrwydd manylach. Byddwn hefyd yn llunio Crynodeb Archwilio Blynyddol yn ystod hydref 2022 a fydd yn crynhoi ein holl waith archwilio a wnaed ers ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Ionawr 2022.

3 Gwnaethom ganolbwyntio ar y meysydd canlynol yn y Cyngor:

- Sefyllfa ariannol
- Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Cynllun lleihau carbon
- Grantiau Cyfleusterau Anabl
- Cydymffurfiaeth Adeiladau Statudol

4 Roedd ein seiliau tystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys sgyrsiau gyda swyddogion ac adolygu dogfennau perthnasol.

5 Mae'r prosiect Asesu Risg a Sicrwydd wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn. Fe wnaethom roi'r canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg i swyddogion wrth i ni gyflawni'r gwaith hwn a chynnal gweithdy gyda'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ym mis Chwefror 2022 lle gwnaethom rannu canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg o ran rhai agweddau ar y gwaith hwn. Defnyddiwyd y gweithdy hefyd i gasglu safbwyntiau uwch reolwyr ar y risgiau archwilio allweddol mewn perthynas â'r Cyngor ac i lywio ein blaengynlluniau.

# Sefyllfa ariannol

## Mae'r Cyngor yn parhau i fod mewn sefyllfa dda i gynnal ei gydnerthedd ariannol. Fodd bynnag, bydd yr heriau yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol yn effeithio ar hyn.

6 Gwnaethom adolygu sefyllfa ariannol y Cyngor yn ystod mis Ebrill a Mehefin 2022. Roedd hyn yn cynnwys ystyried sefyllfa cronfeydd ariannol wrth gefn y Cyngor, cyflawni arbedion a oedd wedi'u cynllunio a pherfformiad o'u cymharu â'r gyllideb a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn.

7 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi tanwario ei gyllideb flynyddol yn gyson a chynyddu ei gronfeydd defnyddadwy. Yn 2021-22, bu tanwariant o £331,000 yng nghyllideb y Cyngor ac yn sgil hyn bu cynnydd o tua £20 miliwn yn ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy. Mae'n parhau i fod â lefel gymharol uchel o gronfeydd defnyddadwy ar ychydig o dan £104 miliwn, sy'n cyfateb i tua 30% o gost net gwasanaethau. Mae'r cynnydd diweddaraf mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn 2021-22 yn rhannol o ganlyniad i dderbyn arian grant yn hwyr gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio pwysau ariannol mewn Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, a llai o arian cyfalaf yn cael ei dynnu i lawr oherwydd gweithgarwch cyfyngedig yn ystod y pandemig. Mae pwysau ariannol yn parhau ym meysydd gwasanaeth Digartrefedd, Gwastraff a Chludiant o'r Cartref i'r Ysgol. Mae'r Cyngor yn rheoli'r rhain drwy gynyddu dyraniadau cyllideb i ateb mwy o alw/costau.

8 Mae setliadau ariannu dangosol Llywodraeth Cymru ar sail Cymru gyfan o 3.4% a 2.5% yn y drefn honno ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn darparu rhywfaint o sicrwydd cyllidol yn y tymor canolig. Fodd bynnag, bydd cynllunio ariannol tymor canolig yn parhau i ddibynnu ar ystod o ragdybiaethau, ac wrth gyplysu â'r tirlun economaidd-gymdeithasol sy'n newid yn y cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd sylweddol, bydd cynllunio ar gyfer cydnerthedd ariannol a rowndiau cyllideb y dyfodol yn parhau i fod yn heriol i gynghorau.

9 Mae strategaeth ariannol y Cyngor yn dangos yn effeithiol cyfeiriad ariannol strategol y Cyngor dros y pedair blynedd nesaf. Nid yw'r strategaeth wedi newid i raddau helaeth heblaw am gydnabod ansicrwydd yn y dyfodol oherwydd y pandemig o ran cyllid cyni a chynnydd yn y galw am rai gwasanaethau. Mae gan y Cyngor hanes o gyflawni ei arbedion arfaethedig. Cyflwynodd y Cyngor 96% o'r arbedion wedi'u targedu yn 2021-22 gan arbed £1.7 miliwn. Mae'r lefel yn eithaf isel oherwydd setliadau mwy cadarnhaol yn ddiweddar.

10 Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif bwlch yn y gyllideb o £27.9 miliwn ar gyfer 2022-23 i 2025-26. Mae wedi dechrau datblygu cynlluniau arbedion ar gyfer 2022-23 ond nid yw wedi penderfynu'n llawn eto sut mae'n mynd i lenwi'r bwlch yn y gyllideb yn y blynyddoedd i ddod. Bydd angen i'r Cyngor wneud hyn wrth iddo ddatblygu ei strategaeth ariannol tymor canolig i ymdopi â'r ansicrwydd economaidd sylweddol.

11 Gwnaethom hefyd gyhoeddi Adnodd Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2022, sy'n cynnwys amrywiaeth o ddata ariannol i gynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

# Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

## Mae'r Cyngor yn datblygu ac yn gweithredu agweddau ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

12 Gwnaethom adolygu ymateb y Cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn y cyfnod rhwng Mai 2021 ac Awst 2022. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd bod y Cyngor:

- wedi ailgyfansoddi ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn llawn er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf.
- wedi penodi, ym mis Ebrill 2022, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus i ganolbwyntio ar ddatblygu ei hunan-asesiad cyntaf o dan y Ddeddf ac i wella ei drefniadau ymhellach.
- yn bwriadu integreiddio ei hunan-asesiad blynyddol cyntaf yn ei adroddiad perfformiad blynyddol a gyhoeddir ym mis Hydref 2022.
- heb ddatblygu Strategaeth Cyfranogi eto fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae'n bwriadu cyflawni ei ddyletswydd ymgynghori o dan Ddeddf 2021 trwy ddulliau ymgysylltu presennol ag undebau llafur, busnesau yn yr ardal leol, trigolion, a staff y cyngor.
- yn gyffredin â chynghorau eraill Cymru, yn ymgysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i helpu i ddatblygu'r trefniadau a'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal Asesiadau Panel.

# Cynlluniau i leihau carbon

## Mae gan y Cyngor strategaeth ddrafft i leihau carbon ond nid yw wedi penderfynu'n llawn eto ar yr adnoddau sydd eu hangen i'w chyflawni na sut y bydd eraill yn cyfrannu at ei gyflwyno

### Cyd-destun

13 Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, a oedd yn edrych ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys pob cyngor. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd uchelgais y sector cyhoeddus ar y cyd i gyrraedd sero net erbyn 2030 yn cael ei bodloni. Daeth ein gwaith o hyd i rwystrau sylweddol, cyffredin i symud ymlaen y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â nhw ar y cyd i gyrraedd yr uchelgais ar y cyd. Er bod cyrff cyhoeddus yn dangos

ymrwymiad i leihau carbon, gwelsom fod yn rhaid iddynt nawr gynyddu eu gweithgareddau yn sylweddol, cynyddu cydweithio a gosod datgarboneiddio wrth galon eu gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.

14 Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad i weithredu canlynol gan gyrff cyhoeddus:

- cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb cyfunol drwy gydweithio'n effeithiol;
- egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu eich cyflymder gweithredu;
- mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;
- gwybod beth yw eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti; a
- gwella ansawdd a monitro data i gefnogi eich penderfyniadau.

15 Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol yng nghynllun gweithredu datgarboneiddio'r Cyngor. Mae'r canfyddiadau hyn yng nghyd-destun ehangach adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2022 sy'n galw am weithredu cyflymach ac arweinyddiaeth gryfach ledled Cymru wrth leihau allyriadau carbon.

## Yr hyn yr edrychom arno

16 Gwnaethom gynnal asesiad o drefniadau'r Cyngor i ddatblygu a chyflawni ei Gynllun Datgarboneiddio rhwng Ebrill a Mehefin 2022. Gwnaethom gasglu tystiolaeth drwy gyfweliadau, adolygu dogfennau a'r Alwad am Dystiolaeth ar yr Adolygiad Gwaelodlin Datgarboneiddio y dychwelodd y Cyngor.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

17 Gwelsom fod gan y Cyngor strategaeth ddrafft i leihau carbon, ond nid yw wedi penderfynu'n llawn eto ar yr adnoddau sydd eu hangen i'w chyflawni na sut y bydd eraill yn cyfrannu at ei gyflawni.

18 Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor yn ymgynghori â'r cyhoedd am ei strategaeth ddrafft, 'Pen-y-bont ar Ogwr 2030 – Strategaeth Garbon Sero Net' (y strategaeth ddrafft). Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi uchelgais y Cyngor i fod yn gyngor carbon niwtral erbyn 2030 yn ogystal â'r risgiau a'r cyfleoedd tymor hir a byr.

19 Mae'r Cyngor hefyd yn nodi ei ffigwr gwaelodlin carbon, a sut mae'n gobeithio lleihau ei ôl troed carbon, ond mae rhai cynlluniau wedi'u datblygu'n well nag eraill.

20 Bydd angen i'r Cyngor ganfod sut y gall ei gynllun cyflenwi sero net sydd ar ddod gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol. Bydd hefyd angen penderfynu sut y bydd y gwaith cyflawni yn effeithio ar ei hamcanion llesiant eraill, a'r effaith ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

21 Mae'r Cyngor wedi cynnwys swyddogion, aelodau, sefydliadau eraill, megis Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr a'r Ymddiriedolaeth Garbon, a'r cyhoedd wrth ddatblygu'r strategaeth ddrafft. Mae'n deall y bydd angen cynnwys

amrywiaeth o sefydliadau a chymunedau er mwyn darparu ei strategaeth. Nid yw'r strategaeth ddrafft yn nodi sut y gall partneriaid yn y sector cyhoeddus gyfrannu at y nod o leihau carbon. Fodd bynnag, ar lefel ranbarthol, bydd y Cyngor yn cyfrannu at ddatblygu cynllun ehangach sy'n cwmpasu'r ôl troed y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus a fydd yn nodi sut y gall partneriaid helpu i ostwng allyriadau carbon. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y gwaith ehangach hwn mewn cyfnod datblygiadol.

22 Mae'r Cyngor wedi rhoi rhai adnoddau ar waith i hwyluso'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r strategaeth. Mae hyn yn cynnwys £50,000 i gefnogi datblygiad y strategaeth a'r cynllun gweithredu. Mae hefyd wedi creu swyddi Rheolwr Rhaglen Datgarboneiddio a Swyddog Prosiect Datgarboneiddio. Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd y Cyngor wedi gallu recriwtio Swyddog Prosiect Datgarboneiddio, a gallai hyn arafu cynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei strategaeth. Er y gall y Cyngor fynegi costau prosiectau penodol a chyfredol, mae'n ymwybodol y bydd gan gyflawni'r strategaeth yn ei chyfanrwydd oblygiadau sylweddol o ran adnoddau nad yw wedi eu mesur yn llawn eto. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cyfrannu at ddatblygu strategaeth ehangach ar gyfer lleihau ôl-troed y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

23 Mae'r Cyngor yn rhoi trefniadau llywodraethu ar waith i oruchwylio'r broses o gyflawni'r strategaeth pan fydd yn cael ei chwblhau'n derfynol. Mae wedi sefydlu bwrdd rhaglen Datgarboneiddio 2030 a fydd yn goruchwylio ac yn olrhain cynnydd yn erbyn y strategaeth. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu cyfres o gynlluniau gweithredu i gyflawni'r ymrwymiadau yn y strategaeth, a rheolwr corfforaethol yn cael ei glustnodi fel Uwch Swyddog Cyfrifol i bob cynllun. Bydd y swyddogion hyn yn adrodd ar gynnydd i fwrdd y rhaglen yn flynyddol.

**Arddangosyn 1: argymhelliad**

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| A1 | Er mwyn bodloni ei uchelgais sero net, mae angen i'r Cyngor gostio ei gynllun gweithredu'n llawn a sicrhau bod y cynllun gweithredu yn cyd-fynd â'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig. |

# Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl

## Cefndir

24 Ym mis Awst 2019, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad Safbwynt Defnyddiwr Gwasanaeth ar Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl. Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad bod y 'rhan fwyaf o’r defnyddwyr gwasanaeth y gwnaethom siarad â nhw yn hapus

â'r gwasanaeth addasiadau tai, ond nid yw'r Cyngor yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i wella'r gwasanaeth a rhoi gwerth am arian'.

25 Fel rhan o'n rhaglen waith ar gyfer 2021-22, gwnaethom asesu cynnydd y Cyngor o ran bodloni'r cynigion i wella yn ein hadroddiad yn 2019. Adroddodd y Cyngor gynnydd tuag at fodloni ein cynigion i wella'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r cynnydd yma wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Roedd yn cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot am gyfnod o hyd at ddwy flynedd i ddarparu cymorth wrth ddatblygu ei fodel mewnol. Mae'r trefniant hwn yn lleihau yn raddol a bydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Cyngor wedi archwilio dulliau gwahanol o ddarparu'r grantiau hyn a fabwysiadwyd gan awdurdodau cyfagos i lywio ei ddysgu.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

26 Mae'r Cyngor wedi bod yn araf yn ymateb i'n cynigion i wella ac mae perfformiad yn parhau i fod yn wael, ac wedi gwaethygu yn sgil y pandemig. Mae'n datblygu model gweithredu newydd ar gyfer 2023-24 y bwriedir iddo fod yn symlach, wedi'i gydlynu'n well ac yn fwy ymatebol i anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

27 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- ers 2016-17, mae nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i ddarparu'r grantiau hyn wedi cynyddu ac mae Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn y chwartel isaf o berfformiad. Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi effeithio'n negyddol ar gyflymder y newid gyda chostau uwch, diffyg dilyniant contractwyr, problemau mynediad i eiddo a recriwtio a chadw staff.
- mae'r gwasanaeth yn dechrau gweld gwelliant mewn perfformiad/amser a gymerir i ddarparu addasiadau. Nid yw'r gwelliannau hyn yn amlwg eto mewn data perfformiad yn gyffredinol oherwydd eu bod yn cael eu cuddio gan ôl-groniad parhaus o gyflawni hwyr, prosiectau mwy cymhleth a fydd yn effeithio ar y ffigwr cyfartalog cyffredinol. Bwriad y Cyngor yw datblygu dangosyddion perfformiad lleol a fydd yn dadansoddi'r data yn ôl maint y prosiect sy'n galluogi dealltwriaeth fwy manwl o berfformiad. Mae'r Cyngor hefyd yn buddsoddi mewn platfform digidol newydd i symleiddio'r broses atgyfeirio, symleiddio ymgysylltiad ar gyfer defnyddiwr y gwasanaeth a chynhyrchu data gwell i reoli perfformiad.
- mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd ei fodel darparu gwasanaethau newydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, 2023-24. Y bwriad yw y bydd yn symlach, ac yn canolbwyntio mwy ar y person a bydd swyddogion yn rheoli'r broses o'r dechrau i'r diwedd gan ffurfio un pwynt cyswllt ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.
- nid yw'r Cyngor wedi llenwi ei strwythur staffio ei dîm Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl newydd eto. Mae wedi cael anawsterau recriwtio syrfewyr. Mae swyddogion yn cydweithio gyda'r Adran Landlordiaid Corfforaethol i archwilio

cynnig o gydweithio i benodi syrfëwr dan hyfforddiant yn y dyfodol. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi caffael rhywfaint o gymorth syrfëwr i sicrhau bod ganddo'r sgiliau technegol sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth. Ar ôl ei ddatrys bydd y model gweithredu newydd yn cynnwys gweithio ar y cyd gyda Therapydd Galwedigaethol Tai (a ariennir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol), Syrfëwr a Chontractwr. Dylai'r tîm aml-ddisgyblaethol hwn helpu i gyflawni ceisiadau a rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth yn well mewn ffordd fwy cydlynol.

- mae'r Cyngor wedi cydnabod potensial i gynnal gwasanaeth a rennir yn y dyfodol ar ôl troed Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg ac mae gwybodaeth wedi'i rhannu'n anffurfiol.

28 Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn yn dal yn eu dyddiau cynnar ac nid ydynt yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau hyd yn hyn. Byddwn yn awyddus i ddeall effaith y trefniadau newydd hyn.

# Cydymffurfiaeth adeiladau statudol

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei dargedau cydymffurfiaeth adeiladau statudol mewn arolygon asbestos ac asesiadau risg o dân lle mae cydymffurfiaeth yn parhau ar lefelau uwch. Fodd bynnag, nid yw'n cyrraedd ei dargedau ar gyfer gwasanaethu nwy a phrofion legionella ac felly nid yw'n lliniaru'r holl risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio

29 Gwnaethom adolygu cydymffurfiaeth y Cyngor â rheoliadau adeiladau statudol yn y cyfnod rhwng Gorffennaf 2021 a Ionawr 2022. Roedd ein gwaith yn cynnwys cyfweliadau gyda swyddogion ac adolygiad o ddogfennau yn ymwneud â pherfformiad o ran cydymffurfiaeth adeiladau statudol ar gyfer gofynion 'Y Pump Mawr':

- Arolwg Asbestos
- Asesiad risg o dân
- Prawf Trydanol Sefydlog
- Gwasanaethu Nwy
- Asesiad Risg Legionella

30 Ar adeg ein gwaith, gwelsom berfformiad cymysg ar y Pum Mawr o feysydd cydymffurfiaeth adeiladau. Rydym yn seilio ein canfyddiadau ar ddata Rhagfyr 2021 gan y Bwrdd Cydymffurfio Iechyd a Diogelwch Landlord Corfforaethol. Gofynnwyd i'r Cyngor am wybodaeth mwy diweddar, ond nid oedden hyn yn bosibl

tan fis Medi fel rhan o glirio'r adroddiad yma. Mae ein canfyddiadau, felly, yn seiliedig ar sefyllfa Rhagfyr 2021.

31 Mae'n gadarnhaol bod y Cyngor wedi gwella perfformiad yn y meysydd canlynol:

- mae cydymffurfiaeth â'r rhaglen Arolwg Asbestos wedi parhau i fod yn uchel ar 100%.
- yn unol â'r rhaglen Asesu Risg o Dân gwelwyd gwelliant sylweddol yn yr amserlen y mae papurau'r bwrdd yn ei chwmpasu (Medi 2018 – Rhagfyr 2021) ar 93.8%.
- mae cydymffurfiaeth â'r Rhaglen Prawf Trydanol Sefydlog hefyd wedi gweld gwelliant dros yr un amserlen rhwng Medi 2018 - Rhagfyr 2021 ar 78.6%. Dyma un o'r lefelau uchaf ers Medi 2018. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i olygu nad yw mwy na 21% o'r adeiladau'n cydymffurfio.

32 Ymhlith y meysydd lle mae angen gwella perfformiad mae:

- perfformiad yn erbyn y rhaglen Gwasanaethu Nwy. Roedd cydymffurfio yn Rhagfyr 2021 ar 56.8%, sy'n golygu nad oedd ychydig dros 43% o'r eiddo wedi'u gwirio.
- perfformiad cydymffurfio yn erbyn y rhaglen Asesu Risg Legionella ar 62.5% ym mis Rhagfyr 2021. Rydym yn nodi bod hyn yn ymwneud â'r asesiad yn hytrach na chydymffurfio gwirioneddol, a fydd yn is. Er bod perfformiad wedi gwella ers Medi 2018, nid yw dros 37% o dai yn bodloni eu gofynion statudol.

33 Rydym yn nodi bod eiddo sydd â gwasanaethu nwy a monitro hylendid dŵr yn hwyr yn cynnwys ysgolion a chartrefi gofal. Mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal tuag at ei holl ddinasyddion bregus, na all ddangos ar hyn o bryd pan nad yw'r adeiladau hyn yn cydymffurfio â rheoliadau statudol. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn amlwg yn torri ei ddyletswyddau statudol. Mae hefyd yn peri risg sylweddol i'r aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r adeiladau hynny yn ogystal ag enw da a risg ariannol i'r Cyngor pe bai damwain neu anaf yn digwydd.

34 Er ein bod yn gwybod bod y Cyngor yn ymwybodol o'r materion ac yn gweithio tuag at wella, rydym yn poeni am gyflymder y cynnydd. Rydym yn poeni'n benodol am wasanaethu nwy lle mae cydymffurfiaeth yn isel ac nid yw wedi bod yn gwella'n gyson. Rydym yn cydnabod bod yr adran Landlordiaid Corfforaethol yn canolbwyntio ar reoli trefniadau iechyd a diogelwch yn ystod y pandemig, a bod ganddo broblemau parhaus o ran recriwtio a chadw staff. Serch hynny, mae'n amlwg y dylai'r Cyngor gymryd safbwynt mwy hirdymor ar sut y gall wella a chadw cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol.

35 Wrth glirio'r adroddiad hwn, dywedodd y Cyngor wrthym ei fod wedi gwella ei berfformiad yn ddiweddar ym mhedwar o'r pum maes cydymffurfio. Mae hyn yn cynnwys gwelliant gyda gwasanaethu nwy. Fodd bynnag, mae perfformiad wrth wneud asesiadau risg legionella wedi gwaethygu. Gan fod y wybodaeth hon wedi cael ei roi i ni ym mis Medi fel rhan o glirio'r adroddiad hwn, nid ydym eto wedi

gallu cadarnhau'r safbwynt hwn. Byddwn yn archwilio hyn fel rhan o'n gwaith ar gyfer 2022-23.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.